# Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil
1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024

**Cefndir**

1. Mae Uniondeb Ymchwil yn egwyddor arweiniol ar gyfer holl weithgareddau ymchwil ac effaith Prifysgol Bangor (“Y Brifysgol”), fel y nodir yn Nogfen Strategaeth 2030 y Brifysgol: *‘Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd a thryloywder a byddwn yn ymdrechu i gydweithredu ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn hwyluso twf deallusol trwy ryddid academaidd, mynegiant creadigol, cyfathrebu gwirionedd a gwybodaeth, a datblygiad cymdeithasol a moesol.’* Mae'r Brifysgol yn ymrwymo'n llwyr i gynnal egwyddorion ac arferion Concordat Prifysgolion y Deyrnas Unedig i Gefnogi Uniondeb Ymchwil (“Y Concordat”)

2. Dyma Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil (“Datganiad Blynyddol”) sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024. Yn unol ag argymhelliad y Concordat, cafodd y Datganiad Blynyddol ei gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol a bydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol. Caiff ei nodi gan Senedd a Chyngor y Brifysgol.

3. Gwna’r Concordat hi’n ofynnol i’r llofnodwyr lunio datganiad blynyddol byr i'r corff llywodraethu, yn adrodd ynghylch y canlynol:

    (i) crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaed i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth a chymhwyso materion sy’n ymwneud ag uniondeb ymchwil.

    (ii) datganiad i roi sicrwydd bod y prosesau sydd gan y sefydliad ar waith i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn rhai tryloyw, amserol, cadarn a theg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.

    (iii) datganiad lefel uchel ynglŷn ag unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys data am nifer yr ymchwiliadau. Os na chynhaliwyd ymchwiliad ffurfiol, dylid nodi hynny hefyd.

    (iv) datganiad ar yr hyn a ddysgodd y sefydliad o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd ynglŷn â chamymddwyn ymchwil, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd i atal yr un math o beth rhag digwydd eto; a

    (v) datganiad ynghylch sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyffyrddus yn riportio achosion o gamymddwyn.

## 4(i) Camau gweithredu a gweithgarwch a gynhaliwyd

Mae'r Brifysgol yn llwyr gydnabod y rheidrwydd i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac, felly, mae'n ceisio cydymffurfio â'r Concordat, trwy fonitro a hyrwyddo’r ymarfer gorau’n barhaus. Yn hynny o beth dechreuodd y Brifysgol, a hynny o fewn cyfnod y datganiad, adolygiad o'i phroses llywodraethu ymchwil. Mae hyn wedi cynnwys:

1. Parhau i gyflogi Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil. Bydd y Swyddog yn adrodd i Ysgrifennydd y Brifysgol ac yn gyfrifol am oruchwylio’r maes llywodraethu ymchwil yn ganolog ac am ddatblygu a rheoli polisïau, systemau a gweithdrefnau, hyrwyddo’r ymarfer gorau a chefnogi'r Brifysgol i gyflawni’r rhwymedigaethau sydd arni o dan delerau'r Concordat.

2. Parhau i gyflogi Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol, fel arweinydd academaidd, i ailstrwythuro

trefniadau uniondeb ymchwil a llywodraethu'r Brifysgol, i wella cefnogaeth a hyfforddiant ar draws Colegau ac Ysgolion y Brifysgol ac ymhlith staff ymchwil-gynhyrchiol y Brifysgol.

3. Parhau i oruchwylio, adolygu ac ymgorffori llywodraethu ac uniondeb ymchwil (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy ac ati) yn ogystal â chontractau, gan gynnwys contractau a chytundebau masnacheiddio, yn rhan o Wasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio ac o Wasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig y Brifysgol.

4. Cynnal system rheoli moeseg ymchwil ar y we i ddarparu system integredig ar gyfer prosesau adolygu moeseg ymchwil y Brifysgol gan gynnwys y portffolio dynol a'r portffolio anifeiliaid. Cafodd y system ei rhoi ar waith gan dîm ac arno aelodau academaidd ac aelodau o'r gwasanaethau proffesiynol gan gynnwys y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) a'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Lywodraethiant Ymchwil a chynrychiolwyr o Wasanaethau Digidol y Brifysgol gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio.

5. O dan arweiniad a rheolaeth y Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig, mae systemau'n bodoli i gefnogi'r gwaith o reoli grantiau strwythurol/isadeiledd mawr. Er enghraifft, ar gyfer rhai projectau ymchwil mawr, neu brojectau lle ceir heriau penodol, mae gan y Brifysgol fyrddau project a byrddau rhaglen sy'n cyfarfod yn rheolaidd i graffu ar yr adenillion i gyllidwyr ac i fonitro cynnydd a pherfformiad.

6. Parhau i weithredu'r Polisi Uniondeb Ymchwil a gymeradwywyd gan Senedd y Brifysgol ym mis Medi 2022. Mae'r Polisi'n cadarnhau pum egwyddor allweddol y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, ac mae hefyd yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil. Mae'r Polisi a'r Concordat yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol sy'n ymwneud ag ymchwil ar ran Prifysgol Bangor ac fe'u lluniwyd i ddarparu safonau a chanllawiau i ymchwilwyr mewn perthynas â chynnal ymchwil moesegol o ansawdd uchel.

7. Mae gweithdrefn wedi ei chynnwys yn y Polisi Uniondeb Ymchwil ar gyfer ymchwilio i gamymddwyn ymchwil. Gellir dwyn pryderon am gamymddwyn ymchwil neu honiad o gamymddwyn ymchwil i sylw'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil. Yn y lle cyntaf, bydd y Swyddog yn ystyried y pryderon neu'r honiad yn ôl ei deilyngdod, ac os bydd angen, bydd yn dechrau ymchwiliad cyn pen 10 diwrnod gwaith.

8. Fel rhan o'r Polisi Uniondeb Ymchwil, mae gennym nifer o Arweinwyr Uniondeb Ymchwil ar lefel Ysgolion. Mae'r unigolion hynny'n bwynt cyswllt lleol i staff a myfyrwyr, er mwyn hyrwyddo a chodi proffil uniondeb ymchwil, cyfeirio pobl at hyfforddiant, a chefnogi polisïau a hyfforddiant uniondeb ymchwil y Brifysgol oddi fewn i sefydliadau ymchwil eu Colegau a'u Hysgolion. Mae pob unigolyn yn rhoi cyngor i ymchwilwyr (staff a myfyrwyr) ynglŷn ag arferion ymchwil da, moeseg ymchwil a / neu uniondeb ymchwil, ac yn cefnogi staff sy'n dymuno codi pryderon ynghylch uniondeb ymchwil. Deoniaid Ymchwil y Colegau yw rheolwyr llinell yr Arweinwyr Uniondeb Ymchwil.

9. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2018 ac i gydnabyddiaeth y Llywodraeth o'r gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y Deyrnas Unedig (UKRIO), tanysgrifiodd Prifysgol Bangor i UKRIO.

10. Mae Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi'i lunio i adlewyrchu arferion cyfredol mewn perthynas â:

- i) Nawdd.
- ii) Egwyddorion craidd y concordat.
- iii) Aelodaeth allanol Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd y brifysgol.
- iv) Categoreiddio a ffrydio ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol.

v) Defnyddio pwyllgor moeseg ymchwil allanol (e.e. ar gyfer projectau ymchwil sy'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r GIG)
vi) Diwydrwydd dyladwy.

11. Bydd y polisïau ar Uniondeb Ymchwil a Moeseg Ymchwil yn cael eu hadolygu yn fuan ac mae disgwyl y byddant yn cael eu hymestyn i adlewyrchu arferion cyfredol eraill megis rheoli allforion, deallusrwydd artiffisial a chaethwasiaeth fodern.

12. Mae Prifysgol Bangor wedi buddsoddi ym mhecynnau hyfforddi Epigeum, sef *Research Integrity Second Edition UK* ac *Ethical Research UK,* a hynny am gyfnod o 3 blynedd. Mae'r feddalwedd ar-lein ar gael i bob myfyriwr PhD ac i bob aelod o staff ymchwil.

13. Cynhaliwyd archwiliad gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar safle'r brifysgol ym mis Chwefror 2024 a chafodd rhai mân argymhellion eu hymgorffori yn rhan o'r gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer trin meinweoedd dynol.

## 4.(ii) Sicrwydd: Polisi, gweithdrefn a chanllawiau cyfredol

1. Cefnogir uniondeb ymchwil ledled y Brifysgol. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio a'r Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig yn gweithio'n agos gyda'r Colegau a'r Ysgolion Academaidd i sicrhau bod y polisïau a'r canllawiau'n addas i'r diben. Mae'r cydweithio hwnnw'n allweddol i atgyfnerthu uniondeb ymchwil.

2. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pa mor bwysig yw cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil ac felly mae'n cydymffurfio â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros uniondeb a llywodraethiant ymchwil. Cyfrifoldeb yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yw cynllunio a gweithredu'r polisïau ac arferion da.

3. Mae Dirprwy Is-ganghellor pob Coleg, Penaethiaid Ysgolion a Deoniaid Ymchwil y Colegau yn gyfrifol am drefniadau lleol uniondeb ymchwil, a byddant yn adolygu prosesau uniondeb o fewn Ysgolion ac unedau ymchwil o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben. Rhaid iddynt hefyd sicrhau, yn unol â'r Polisi Moeseg Ymchwil, bod o leiaf un pwyllgor moeseg ymchwil academaidd wedi ei sefydlu ym mhob Coleg, gydag aelodaeth, cylch gorchwyl a phroses briodol o ran monitro ac adolygu materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil. Fel arall, bydd angen cytundeb i weithredu ac adolygu materion sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil trwy Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd priodol arall.

4. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Lywodraethiant Ymchwil yn darparu cyfeiriad strategol academaidd ar gyfer llywodraethiant ymchwil ynghyd â Chadeiryddion y Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd. Mae disgwyl i Benaethiaid Ysgolion gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau cyfeiriad ymchwil strategol priodol a bod ymchwilwyr yn cael eu goruchwylio'n effeithiol o fewn eu Colegau a'u Hysgolion, gan gynnwys cyngor cychwynnol ar faterion uniondeb ymchwil ac ymddygiad academaidd, a bydd yr Uwch Swyddog Llywodraethu a Pholisi Ymchwil o'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio yn ymdrin â phryderon ynghylch camymddwyn academaidd.

5. Grŵp Llywodraethiant a Moeseg Ymchwil y Brifysgol, sydd bellach yn grŵp cyflawni i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol, yw Pwyllgor hollgyffredinol Prifysgol Bangor ar gyfer ystyried materion sy'n ymwneud â llywodraethiant a moeseg ymchwil. Mae'r Grŵp wedi datganoli'r cyfrifoldeb dros y broses adolygu a chymeradwyo moesegol yn y tri choleg, oddi wrth y Pwyllgor Ymchwil, i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd perthnasol y Colegau. Gall y Colegau a'r Ysgolion, pan fo'n briodol, uwchgyfeirio materion i'r Grŵp Llywodraethiant a Moeseg Ymchwil.

6. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd yn cyflwyno adroddiadau gerbron

y Grŵp Llywodraethiant a Moeseg Ymchwil / Grŵp Cyflawni ym mhob cyfarfod, gan gynnwys adroddiad blynyddol i gyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Gallant gyfeirio unrhyw faterion o bryder moesegol at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil, sy'n gwasanaethu fel Ysgrifennydd y Grŵp Llywodraethiant a Moeseg Ymchwil. Lle bo'n briodol, gellir sefydlu gweithgor o'r Grŵp Llywodraethiant a Moeseg Ymchwil i ystyried materion penodol ac i wneud argymhellion.

7. Mae Polisi Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn nodi canllawiau ynglŷn â'r materion sy'n gysylltiedig â gwneud ymchwil yn briodol, ac yn ôl y safonau a ddisgwylir. Mae'r Polisi'n cynnwys datgan yn gwbl glir bod y Brifysgol yn mynnu bod yr holl staff academaidd yn cynnal safonau uchel o ymddygiad academaidd ac, yng nghyd-destun ymchwil, yn ymwybodol bod twyll academaidd yn dra difrifol, ac yn effro i'r angen i warchod rhag ymddygiad o'r fath, boed drwy ffugio canlyniadau ymchwil, llên-ladrad neu fel arall.

8. Mae'r Polisi'n mynnu bod gonestrwydd, bod yn agored, atebolrwydd ac uniondeb yn briodweddau hanfodol i unrhyw ymchwilydd academaidd ni waeth beth fo eu disgyblaeth neu lefel eu profiad.

9. Mae disgwyl y bydd yr holl fyfyrwyr a'r staff ymchwil-gynhyrchiol yn gwneud y canlynol:

   - cymryd camau i ymgyfarwyddo â'r Polisi mewn materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, cyllid, neu ddiogelwch sy'n berthnasol i'w maes ymchwil.
   - cadw at y gofynion cyfreithiol a moesegol a bennir gan y Brifysgol neu unrhyw gyrff eraill a benodwyd yn briodol ac sy'n ymwneud â'u maes ymchwil.
   - cymryd camau i sicrhau iechyd a diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymchwil.
   - rhoi gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau, boed yn wrthdaro gwirioneddol neu'n wrthdaro posib, i'r awdurdod priodol; sicrhau tegwch wrth iddynt wneud ymchwil.

10. Mae'r brifysgol yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoliadol a statudol perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, Rheoliadau Lles Anifeiliaid, Rheoliadau Meinweoedd Dynol a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

11. Y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (AWERB) sy'n gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'n foesegol yr holl ymchwil yn y Brifysgol sy'n ymwneud ag anifeiliaid, fel y nodir yn y Broses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn adrodd i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol.

12. Caiff maes Meinweoedd Dynol, sy'n faes rheoledig allweddol, ei reoli ar lefel Coleg, a darperir cefnogaeth weithredol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio.. Mae'n rhaid i unrhyw weithgarwch yn y Brifysgol sy'n ymwneud â defnyddio organau, meinweoedd a chelloedd (megis poer, gwaed ac ati sy'n cynnwys celloedd), ddilyn Amodau Safonol caeth ac mae'n rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod y defnydd a wneir o feinweoedd dynol wedi ei gymeradwyo'n foesegol trwy'r System Ceisiadau Ymchwil Integredig a'u bod wedi sicrhau'r cydsyniad priodol. Rhaid i ymchwilwyr sydd eisiau gwneud ymchwil sy'n cynnwys meinweoedd dynol ymgynghori ag Unigolyn Dynodedig Meinweoedd Dynol y Brifysgol cyn dechrau gwneud ymchwil. Caiff ymchwil clinigol ei adolygu a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd a chan Bwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG a chaiff pob treial clinigol ei gofrestru'n gyhoeddus.

13. Caiff meysydd rheoledig allweddol eraill eu rheoli ar lefel y Coleg perthnasol a chaiff cymeradwyaeth, achrediad, neu gydnabyddiaeth ei ddarparu gan amrywiol Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol megis y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Estyn, Advance HE, Sefydliad Rheolaeth Siartredig a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

14. Gwna'r Brifysgol bob ymdrech i gydymffurfio'n llawn â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar

Ddiogelu Data gan gynnwys ei berthnasedd i weithgarwch ymchwil. Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio sy’n rhoi cyngor ac arweiniad ynglŷn â materion sy’n ymwneud â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gyda chysylltiad agos â'r swyddogaeth llywodraethiant a moeseg ymchwil. Mae'n amod cyflogaeth y bydd staff yn cydymffurfio â rheolau a pholisïau diogelu data’r Brifysgol. Yn benodol, rhaid i'r holl staff sicrhau:

- y cedwir yr holl wybodaeth bersonol a ymddiriedir iddynt yn ystod eu cyflogaeth yn ddiogel.
- nad oes unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu naill ai ar lafar neu ar bapur, yn ddamweiniol neu fel arall, i unrhyw drydydd parti heb awdurdod.
- na chaiff gwybodaeth bersonol ei chyrchu gan staff am unrhyw reswm ac eithrio fel rhan o fusnes dilys y Brifysgol.
- bod unrhyw wybodaeth a roddant i'r Brifysgol ynglŷn â'u cyflogaeth eu hunain yn gywir ac yn gyfredol a'u bod yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau, e.e. newid cyfeiriad.

15. O ran hyfforddiant, mae'r Brifysgol hefyd yn un o lofnodwyr y Concordat Datblygu Ymchwilwyr ac, ers 2015, mae’n cynnal gweithgor i weithredu, ymgorffori a hyrwyddo egwyddorion y Concordat hwnnw ac i hyrwyddo’r ymarfer gorau; er enghraifft, wrth hyfforddi Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa. Mae'r grŵp yn dwyn staff cefnogi allweddol ynghyd yn ogystal â chynrychiolwyr academaidd o bob rhan o'r Brifysgol, ac mae’n adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol.

16. Bydd yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil a'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol yn sicrhau y bydd hyfforddiant ar bynciau sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil ar gael trwy’r Rhaglenni Datblygu ar gyfer Cynefino Staff sy’n cael eu rhedeg gan adran Adnoddau Dynol y Brifysgol.

**4. (iii) Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddwyn Ymchwil Academaidd**

1. Hyd yma, yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, ni chafodd unrhyw honiadau eu dwyn gerbron ymchwiliad ffurfiol.

2. Hyd yma, yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, ni chafodd unrhyw honiadau eu dwyn gerbron ymchwiliad ffurfiol.

3. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, cyfeiriwyd ymchwiliad anffurfiol o’r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â chyfundrefn enwau gwyddonol dadleuol i sylw UKRIO am gyngor. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i warantu ymchwiliad i gamymddwyn ymchwil. Bu ymchwiliad hefyd i fethiant ymddangosiadol i sicrhau adolygiad moesegol ar gyfer project ymchwil lefel Meistr a oedd, mewn gwirionedd, yn adlewyrchu diffygion gweinyddol, yn hytrach nag achosion o gamymarfer.

4. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023-24, cafodd un gŵyn am aelod o staff ac ynghylch uniondeb ymchwil mewn perthynas â pherchnogaeth darn o eiddo deallusol ei dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol am ystyriaeth bellach. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i warantu ymchwiliad i gamymddwyn ymchwil a daeth ymchwiliad cyfochrog a gynhaliwyd gan y GIG i'r casgliad nad oedd sail i'r gŵyn.

5. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, derbyniwyd tair cwyn am uniondeb ymchwil staff. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i warantu ymchwiliad i gamymddwyn ymchwil. Fodd bynnag, arweiniodd ymchwiliadau anffurfiol at roi cyngor ynghylch awduraeth, perchnogaeth eiddo deallusol a chynnwys diamwys ar y we.

6. Mae tabl i’w gael yn Atodiad 1 ar gyfer y 3 blynedd academaidd gyflawn ddiwethaf gyda blwyddyn 1 yn cynrychioli’r flwyddyn gyflawn fwyaf diweddar.

**4. (iv) Gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau a gynhaliwyd i gamymddwyn ymchwil**

1. Mae'r Brifysgol yn seilio'r prosesau sydd ganddi i gynnal ymchwiliadau ar ganllawiau UKRIO ac mae'n defnyddio cysylltiadau â'r gymuned rheoli ymchwil ehangach i lywio unrhyw newid i'n polisïau. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn wyliadwrus ac mae'n cymryd unrhyw honiad o ddifrif ac fel prifysgol sy'n bleidiol i'r concordat i gefnogi uniondeb ymchwil, rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

    - cynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil.
    - sicrhau y caiff ymchwil ei wneud yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol.
    - cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n seiliedig ar ddiwylliant o uniondeb ac ar lywodraethu da, yr ymarfer gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr.
    - defnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pe baent yn codi.
    - cydweithio i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored.

Fodd bynnag, mae'r prif ganfyddiad sy'n ymwneud â nifer isel o adroddiadau o gamymddwyn ymchwil yn Atodiad 1 yn amlygu'r angen i adolygu'r trefniadau o ran ymwybyddiaeth a hyfforddiant uniondeb ymchwil.

2. Caiff y weithdrefn ei diweddaru'n barhaus gan yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil. Bydd adolygu a lle bo angen, gwella ar y prosesau camymddwyn ymchwil yn parhau i fod yn rhan o adolygiad y Brifysgol o drefniadau llywodraethu ymchwil ac uniondeb ymchwil. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cadw mewn cyswllt â'r adran Adnoddau Dynol mewn perthynas â materion disgyblu i ganfod a allai unrhyw gamymddwyn ymchwil fod wedi digwydd neu a ellid bod wedi peidio â sylwi ar gamymddwyn ymchwil.

**4. (v) Ymgorffori amgylchedd ymchwil sy'n annog bod yn agored ac yn barod i riportio achosion o gamymddwyn, a pharatoi'r datganiad hwn.**

1. Mae Gweithdrefn Uniondeb Academaidd a Pholisi Uniondeb Ymchwil y Brifysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i gynnal safonau uchel o ymddygiad academaidd o ran nodweddion cadarnhaol gonestrwydd, bod yn agored, atebolrwydd ac uniondeb, fel priodweddau hanfodol i unrhyw ymchwilydd academaidd ni waeth beth yw eu disgyblaeth na lefel eu profiad. Mae proses ar y gweill i edrych ar y diwylliant ymchwil a sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yn berthnasol ac yn gydlynol.
2. Paratowyd a diweddarwyd y datganiad hwn gan yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil, gyda mewnbwn gan y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Lywodraethiant Ymchwil, y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil), Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Pennaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith.
3. Cyflwynwyd a chymeradwywyd y datganiad gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol.

**Paul Spencer, Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil)**
**Gwenan Hine (Ysgrifennydd y Brifysgol)**
**Colin Ridyard (Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil)**
**Gyda chyfraniadau gan Robert Rogers, cyn Ddirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Lywodraethiant Ymchwil**

**Mehefin 2025**

**Atodiad 1**

- Darperir ffigurau ar gyfer y 3 blynedd academaidd gyflawn ddiwethaf gyda blwyddyn 1 yn cynrychioli'r flwyddyn gyflawn fwyaf diweddar.
- Mae "ymchwiliad ffurfiol" fel y disgrifir ym Mholisi a Chanllawiau UKRI
- Dylid rhannu ymchwiliadau yn ôl Cyngor Ymchwil, ac yn ôl math (fel y'u diffinnir yn yr adran am uniondeb ar dudalen we UKRI)

| | Ffugio | | Anwirio | | Llên-ladrad | | Camliwio | | Tor-dyletswydd gofal | | Ymdrin yn amhriodol â honiadau o gamymddwyn | | Arall | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau | cwblhawyd | wedi'i gadarnhau |
| 1 | | | | | | | 1** | 0 | | | | | | |
| 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1* | 0 |
| 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1* | 0 |
| 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

*Cyfeirio at archwiliadau anffurfiol **Yn cyfeirio at ymchwiliad anffurfiol a ddygwyd ymlaen o Flwyddyn 2